

# Cyngor Abertawe



Cyngor **Abertawe**  
**Swansea** Council

## **Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2017 - 2018**

## **CYNNWYS**

- 1. Cyflwyniad a Chefndir .....**
- 2. Trosolwg o 2017-2018 .....**
- 3. Gweithredu'r safonau .....**
  - **Safonau Cyflwyno Gwasanaethau**
  - **Safonau Llunio Polisiâu**
  - **Safonau Gweithredol**
  - **Safonau Hyrwyddol**
  - **Safonau Cadw Cofnodion**
- 4. Addysg Gymraeg .....**

## **ATODIADAU**

- a) Monitro Cyngor Abertawe yn 2016-2017 gan Gomisiynydd y Gymraeg.**
- b) Cwynion ynghylch cydymffurfio â'r safonau**
- c) Demograffeg y Gymraeg yn Abertawe**

## 1. Cyflwyniad a Chefnidir

Dyma'r ail Adroddiad Blynyddol cyntaf ers i'r safonau ddod i rym. Mae'n cynnig trosolwg o'r gweithgarwch dros gyfnod o 12 mis hyd at 31 Mawrth 2018, ac arfarniad o sefyllfa'r awdurdod mewn perthynas â gweithredu'r safonau.

Mae'r atodiadau'n cynnig rhywfaint o fanylion parthed rhoi'r safonau ar waith yn Abertawe'n benodol, yn ogystal â gwybodaeth am y Gymraeg yn yr ardal.

Ers 30 Mawrth 2016 bu'n ddyletswydd statudol ar yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan y Mesur drwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg).

Rhestrir y safonau a roddwyd i Ddinas a Sir Abertawe mewn hysbysiad cydymffurfio - Is-adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae copi o'r safonau hyn ar gael ar wefan gyhoeddus y cyngor yn:

<https://www.abertawe.gov.uk/cymraeg> <https://www.swansea.gov.uk/cymraeg>

Yr hysbysiad hwn, y cytunwyd arno â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, yw'r ddogfen gyfredol sy'n llywodraethu ein cydymffurfiad.

Bwriad y safonau yw:

- sicrhau nad yw sefydliadau'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a
- hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg (a'i gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd pob dydd).

Nod y safonau yw:

- ei gwneud hi'n eglur i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg
- ei gwneud hi'n fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd

Mae'n ofynnol i Abertawe gydymffurfio â **163 o safonau ar draws 5 categori** fel a ddangosir yn nhabl 1 isod:

Tabl 1: Safonau i Gyngor Abertawe gydymffurfio â hwy

Cyngor Abertawe		
	Categoriâu	Nifer o safonau
1	Safonau Cyflwyno Gwasanaethau	86
2	Safonau Llunio Polisiâu	16
3	Safonau Gweithredol	51
4	Safonau Hyrwyddol	2
5	Safonau Cadw Cofnodion	8
	<b>Cyfanswm</b>	<b>163</b>

## **2. Trosolwg o 2017-2018**

Parhaodd y cynnydd da a wnaed wrth roi Safonau'r Gymraeg ar waith yn ystod y flwyddyn, ac mae adborth cyffredinol yn dangos bod swyddogion yn fwy hyddysg ac yn llawer mwy ymwybodol o'r angen am gydymffurfio nag yr oeddent yn flaenorol. Mae adborth cyffredinol gan reolwyr wedi bod yn gadarnhaol, ac ni nodwyd unrhyw faterion mawr.

Pan gyflwynwyd y safonau gyntaf, gallai amserau aros ar gyfer cyfieithu fod yn hir iawn, ond cafwyd gwelliant yn ystod y flwyddyn.

Mae'r awdurdod wedi ymrwmo i ddigwyddiad tridiau blynyddol, sef "CROESO", i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar y penwythnos agosaf at 1 Mawrth. Gweler adran 3ch: Safonau Hyrwyddol i gael mwy o fanylion am ddigwyddiad eleni.

Ym mis Ionawr 2018, cymeradwyodd y Comisiynydd Wasanaethau Hamdden y cyngor am hwyluso a hyrwyddo gwersi nofio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r gwasanaeth Cymraeg ar brif rif ffôn y cyngor yn boblogaidd gyda siaradwyr Cymraeg, ac mae nifer o alwyr wedi dweud pa mor dda ydyw i allu siarad Cymraeg yn gyntaf wrth gysylltu â'r awdurdod dros y ffôn. Mae nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg hefyd wedi dewis defnyddio llinellau ffôn adrannol Cymraeg (gweler adran 3a, Safonau Cyflwyno Gwasanaethau, am fanylion).

Yn ystod y flwyddyn, sicrhawyd bod yr holl gyfeiriadau e-bost unigol a thimau yn yr awdurdod ar gael yn y Gymraeg.

Y flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn oedd parhau i ganolbwyntio ar safonau Cyflwyno Gwasanaethau, gan mai'r rhain sy'n fwyaf niferus (86) ac yn fwyaf gweladwy i'r cyhoedd. Mae'r gwaith ar y Safonau Gweithredol wedi datblygu, yn enwedig am eu bod yn berthnasol i'r gofynion mewn perthynas â gweithlu'r awdurdod.

## **3. Gweithredu'r Safonau**

Y Tîm Rheoli Corfforaethol sy'n gyfrifol am ein cydymffurfriad â Safonau'r Gymraeg, gyda phenaethiaid gwasanaeth yn rhoi eu gweithdrefnau lleol eu hunain ar waith.

Mae hyrwyddwr y Gymraeg ym mhob maes gwasanaeth sy'n brif ffynhonnell gwybodaeth berthnasol (dwyffordd) i'w meysydd a'u harferion gwaith.

Swyddog Cydraddoldeb dynodedig yr awdurdod yw'r pwynt cyswllt cyffredinol ar gyfer unrhyw faterion a godir yn allanol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, naill ai gan unigolion, gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg neu o rywle arall. Mae'r swyddog hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad yn fewnol ar weithredu'r safonau a chydymffurfio â nhw.

Caiff gwybodaeth a phenderfyniadau pendant ynghylch y safonau eu darparu i'r holl benaethiaid gwasanaeth sy'n gyfrifol am gydymffurfio yn eu meysydd unigol hwy, yn ogystal â'r hyrwyddwyr.

Arweinir y cyfrifoldeb am oruchwylio agenda'r Gymraeg gan Reolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid y cyngor.

Ym mis Rhagfyr 2017, derbyniodd yr awdurdod gasgliadau Adroddiad Sicrwydd 2016-17 Comisiynydd y Gymraeg, "Hawliau'n Gwreiddio", ac mae manylion casgliadau mewn perthynas â Chyngor Abertawe ar gael yn **Atodiad a)**

Er bod yr adroddiad yn nodi bod pethau'n gwella ar draws y sefydliadau y mae gofyn iddynt gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, mae mwy i'w wneud: Dyma gasgliadau cyffredinol yr adroddiad:

- Mae angen gwella ansawdd y gwasanaethau Cymraeg a threfniadau sefydliadau ar gyfer hunanreoleiddio.
- Mae angen newid ymddygiadau er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae angen marchnata gwasanaethau mewn modd deallus a pherswadio pobl y caiff eu hanghenion eu diwallu.
- Mae'n hanfodol y caiff strategaethau hyrwyddo eu paratoi a'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau y cynhelir neu y cynyddir nifer y siaradwyr Cymraeg.

Mae'r casgliadau uchod yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol yng Nghyngor Abertawe ac yn cynnig her glir i'r awdurdod wrth iddo barhau i wreiddio'r safonau a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn ei holl swyddogaethau.

### **Yr Uned Gyfieithu**

Mae proffil uwch y Gymraeg yn dilyn cyhoeddi a chyflwyno'r safonau wedi gwella prydlondeb cyflwyno gwaith i'w gyfieithu i'r Uned Gyfieithu, ac mae'r rheiny sy'n gofyn am y cyfieithiadau'n fwy ymwybodol o'r angen i ystyried amser ar gyfer y gwaith cyfieithu mewn cynlluniau i ddatblygu unrhyw ddogfennau, cyhoeddusrwydd ac adnoddau eraill perthnasol.

Symudodd yr uned hefyd i'r adran Gwasanaethau Cwsmeriaid ym mis Ebrill 2018 ac ar hyn o bryd rydym yn cynnal adolygiad o alw ac yn edrych ar ffyrdd newydd o weithio fel y gall gofynion cyfieithu gael eu trefnu a'u blaenoriaethu mewn modd effeithlon ar draws y cyngor cyfan.

Mae llwyth gwaith yr Uned Gyfieithu'n parhau i dyfu, oherwydd gofynion ychwanegol y safonau o'u cymharu â'r cynllun a'r ffaith fod mwy o adrannau'n defnyddio'r gwasanaeth nawr nag yn y gorffennol. Bydd newid y ffordd rydym yn gweithio, cynyddu ymwybyddiaeth, cyfathrebu'n well a marchnata'r gwasanaeth yn datrys rhai o'r problemau a all godi ar rai adegau o'r flwyddyn pan fydd nifer o ddyddiadau cau'n cyddaro.

Yn ystod 2017-18, cyfieithodd yr Uned Gyfieithu 3.8 miliwn o eiriau. Er bod hyn 6.3% yn llai nag yn 2016-17, mae'r galw am gyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda 171½ o oriau'n cael eu cofnodi yn ystod 2017–18, a chynnydd o 103% ar y flwyddyn flaenorol.

Er mwyn cyflawni effeithlonrwydd, cafwyd newid sylweddol yn y sefydliad dros y 12 mis diwethaf sydd wedi arwain at ailstrwythuro niferus a hysbysebu swyddi'n dilyn hyn. Gan fod yr Uned Gyfieithu'n cyflawni cymaint o waith ag y bo modd, ac oherwydd yr angen i ddychwelyd gwaith yn gyflym, cyfieithwyd tua 700,000 o eiriau'n allanol.

## **Adborth gan adrannau**

DesignPrint

Mae adegau pan fo angen atgoffa gweithwyr o ofynion a cheir achosion o hyd lle nad yw swyddogion sy'n llunio dogfennau'n ystyried Safonau'r Gymraeg wrth gynllunio prosiectau neu ddogwyddiadau. Pan gyflwynwyd y safonau gyntaf, gallai amserau aros ar gyfer cyfieithu fod yn hir iawn, ond cafwyd gwelliant yn ystod y flwyddyn.

Craffu

Gall yr amser y mae'n cymryd i'r Uned Gyfieithu gwblhau a dychwelyd gwaith fod yn broblem sy'n effeithio ar ddyddiadau cau ac mae ystyried amser cyfieithu'n ychwanegu pwysau at y gwaith paratoi.

## **3a. Safonau Cyflwyno Gwasanaethau**

### **Cyfeiriadau e-byst**

Ers mis Chwefror 2018, mae'r holl gyfeiriadau e-bost unigol ac adrannol wedi bod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg fel y gall preswylwyr sy'n siarad Cymraeg ac eraill gysylltu drwy ddefnyddio'r cyfeiriad Cymraeg. Disgwylir i staff roi eu cyfeiriad @swansea.gov.uk a'u cyfeiriad @abertawe.gov.uk yn eu llofnod e-bost.

### **Ffôn**

Mae cynnwys y Gymraeg mewn cyfarchion dros y ffôn ac ymwybyddiaeth o weithdrefnau adrannol wedi rhoi hyder i staff mewn llawer o feysydd gwahanol i ddarparu gwasanaeth drwy'r Gymraeg i'r rheiny sy'n gofyn amdano neu y mae ei angen arnynt.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, dewisodd 2,733 o'r bobl a ffoniodd switsfwrdd y cyngor a'r Ganolfan Alwadau Gorfforaethol ddewis yr opsiwn i siarad â'r cyngor yn Gymraeg. Fodd bynnag, dim ond 1676 o'r rhain oedd wedi parhau â'u hymholiad drwy gyfrwng y Gymraeg - roedd y lleill yn breswylwyr a oedd wedi dewis yr iaith anghywir. Atebodd y ganolfan alwadau gyfanswm o 435,657 o alwadau yn yr un cyfnod (2017/2018) felly mae'r uchod yn cyfateb i 0.4% yn unig o alwadau lle dewiswyd yr opsiwn Cymraeg.

Nifer y cwsmeriaid a ddefnyddiodd wasanaethau Cymraeg Is-adran Refeniw a Budd-daliadau'r cyngor dros y ffôn yn ystod y cyfnod adrodd oedd 1,866. Cyfanswm y galwadau ffôn oedd 151,173, felly canran y galwadau Cymraeg oedd 0.12%

Sefydlwyd llinell ffôn Gymraeg neilltuedig yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion fel y Pwynt Cyswllt Cyffredin ym mis Rhagfyr 2017 er mwyn cael mynediad i'r gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Cyn hynny, nid oedd unrhyw ffordd o olrhain galwadau Cymraeg. Rhwng mis Rhagfyr 2017 a 31 Mawrth 2018, galwodd 57 o bobl linell ffôn Gymraeg y Pwynt Cyswllt Cyffredin. Fodd bynnag, penderfynodd pob galwr barhau â'r alwad yn Saesneg yn hytrach nag aros i siaradwr Cymraeg ei alw'n ôl.

Cafwyd cyfanswm o 379 o alwadau i linell ffôn Gymraeg y gwasanaethau cyflogaeth yn y flwyddyn ariannol 2017/2018. Mae hyn yn cyfateb i 2% o gyfanswm y galwadau i Ddesg Gymorth y Ganolfan Gwasanaethau.

Mae Abertawe, drwy Fae'r Gorllewin, yn bwriadu cyflwyno System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC) sy'n cefnogi cynnig gweithredol ac a fyddai'n cymryd lle'r system "PARIS". Caiff y cynnydd o ran hyn ei gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf, gan gynnwys data ar nifer y siaradwyr Cymraeg a gysylltodd â'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i Blant a Theuluoedd.

### **Mwy Na Geiriau: More than Just Words**

Er bod Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i holl feysydd gweithredu'r awdurdod, mae cyngor Abertawe hefyd yn ymrwymedig i ddatblygu Mwy na Geiriau - fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg yn y meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

Ym mlwyddyn un, roedd Abertawe, drwy raglen ranbarthol Bae'r Gorllewin, wedi proffilio ac asesu nifer o boblogaethau targed i gefnogi datblygiad Cynllun Ardal y llynedd. Rydym newydd gwblhau blwyddyn 2 y rhaglen lle cafodd y 'Cynnig Gweithredol' o wybodaeth, cyngor a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg ei wneud wrth ein drws ffrynt statudol ein hunain, a thrwy asesiad gwaith cymdeithasol a darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau a gomisiynwyd i sicrhau bod ymagwedd ddwyieithog yn weladwy, wedi'i gwreiddio ac yn nodwedd o ansawdd mewn cynnig gofal cymdeithasol i oedolion a phlant yn Abertawe. Mae cynlluniau i roi System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC) ar waith y flwyddyn nesaf.

Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a phartneriaethau, y fframwaith hwn yw canolbwynt y gweithredu mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg. Adroddir am gynnydd yn erbyn y fframwaith i Lywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Cynrychiolir Cyngor Abertawe a Bae'r Gorllewin bellach yng Nghyd-fforwm Rhanbarthol Mwy na Geiriau Byrddau Iechyd Cwm Taf a PABM, grŵp cydweithredol a ffurfiwyd i fynd ati i roi'r fframwaith ar waith ar draws y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol yn y ddau ranbarth, ac i rannu arfer gorau.

### **3bi Safonau Llunio Polisiâu**

Mae'r holl benderfyniadau llunio polisiâu yn destun Asesiad Effaith Cydraddoldeb corfforaethol y cyngor, sy'n ystyried yr effeithiau posib y gallai'r fenter eu cael ar faterion cydraddoldeb.

Er bod hyn yn seiliedig ar ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010)), mae ein proses AEC benodol wedi ehangu'r paramedrau i gyfeirio'n benodol at y safonau a'n rhwymedigaeth i'w bodloni. Mae canllawiau atodol yn atgyfnerthu'r gofynion hyn. Er bod dealltwriaeth o'r safonau wedi cynyddu'n gyffredinol, mae angen esboniad a chefnogaeth ar swyddogion yn aml wrth gwblhau elfen Gymraeg AEC. Un mater cyffredin yw methiant i drafod cynigion â siaradwyr Cymraeg yn y gymuned.

### **Safonau Llunio Polisiâu Atodol**

#### **3bii Cwynion**

Ymdrinnir â chwynion am y Gymraeg a/neu gwynion a dderbynnir yn y Gymraeg am unrhyw agwedd ar gyflwyno gwasanaethau'n unol â pholisi cwynion corfforaethol yr awdurdod a gyhoeddir ar wefan allanol y cyngor <https://www.abertawe.gov.uk/cymraeg>

Yn ystod y cyfnod adrodd, 1 Ebrill 2017 - 31 Mawrth 2018, derbynion ni **un** gŵyn newydd drwy Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg o ran darparu gwasanaethau dan Safonau'r Gymraeg, a thair cwyn yn uniongyrchol i'n hadran cwynion corfforaethol mewn perthynas â'r Gymraeg.

Dylid nodi y caiff cwynion sy'n dod o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg eu prosesu'n unol â safonau ac amserlenni'r swyddfa ei hun, sy'n cael eu blaenoriaethu dros ein hamserau ymateb arferol (a gyhoeddir).

Dangosir manylion cwynion agored ynghyd â chwynion na chawsant eu cau ar ddiwedd y cyfnod adrodd blaenorol yn y tabl yn **Atodiad b)**  
Caiff manylion y cwynion a oedd yn barhaus ar ddiwedd y cyfnod adrodd eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

### **3c Safonau Gweithredol**

Safonau Gweithredol sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg yn swyddogaethau mewnol sefydliad, gan gynnwys y berthynas rhwng yr awdurdod a'i weithwyr (gan gynnwys yn ystod recriwtio a phenodi), drwy:

- Annog a helpu staff i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg fel rhan o'u gwaith arferol, o ddydd i ddydd
- Darparu fframwaith cefnogol i staff er mwyn iddynt wella a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Mae'r adran Adnoddau Dynol wedi comisiynu cyfieithiad o'r polisïau a'r gweithdrefnau hynny, yn ôl cyfarwyddwyd y safonau, ac mae'r rhain ar gael i unrhyw aelod o staff sy'n gofyn amdanynt.

Mae mynediad i feddalwedd er mwyn cefnogi staff wrth ddefnyddio'r Gymraeg (e.e. meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg MSOffice a chyfieithu awtomatig) ar gael fel ychwanegiad safonol.

Mae gan StaffNet adran Gymraeg <http://www.swansea.gov.uk/staffnet/welsh> sy'n cynnwys adnoddau ategol i staff sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith, gan gynnwys:

- Trosolwg o'r safonau, ynghyd â gwybodaeth am rôl Comisiynydd y Gymraeg
- Cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein a ddatblygwyd i ddarparu rhywfaint o gyd-destun cymdeithasol a hanesyddol i'r Gymraeg a'i lle mewn cymdeithas fodern.
- Canllawiau hwylus sy'n rhoi arweiniad cyflym i faes penodol yn y safonau, e.e.
  - galwadau ffôn
  - e-byst
  - trefnu cyfarfodydd
  - dylunio arwyddion



- gwasanaethau cyfieithu i'r Gymraeg
- Cyfieithiadau safonol
  - i helpu gyda llunio gwybodaeth safonol sydd â darnau bach o wybodaeth amrywiol, e.e.
  - dyddiadau, amserau, lleoliadau
  - negeseuon awtomatig (allan o'r swyddfa)
  - arwyddion safonol *ad hoc*
- Arweiniad i gyfryngau cymdeithasol dwyieithog - rheolau ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i ddiwyddiadau a gwybodaeth arall ar Twitter, Facebook a chyfryngau cymdeithasol eraill.
- Manylion gwersi Cymraeg a sesiynau ymarfer, gan gynnwys cyrsiau allanol ar wefan <http://www.swansea.ac.uk/learnwelsh/>
- Digwyddiadau cymdeithasol allanol rheolaidd drwy wefan Menter Iaith Abertawe
- Hyfforddiant yn y Gymraeg i staff - i staff rheng flaen i ddechrau mewn adrannau lle nodwyd bod diffyg siaradwyr Cymraeg.
- Manylion hyrwyddwyr y Gymraeg mewn meysydd gwasanaeth

### Staff a sgiliau Cymraeg

Mae system AD yr awdurdod (Oracle) yn cofnodi lefelau sgiliau Cymraeg ar draws y pedwar maes, sef Siarad, Deall, Darllen ac Ysgrifennu. Anogir staff i ddiweddarau lefelau sgiliau Cymraeg fel rhan o'r opsiwn "Hunanwasanaeth" ar-lein ac o ganlyniad i fentrau i'w hannog i wneud hyn, cafwyd rhywfaint o gynnydd yn y gyfradd gofnodi yn 2017/18.

Gellir gweld data a ddarparwyd gan staff (o 31 Mawrth 2018) ac a gedwir ar y system yn y tablau canlynol.

**Tabl A: Staff sy'n cofnodi un neu fwy o sgiliau Cymraeg.**

	C18 Yn deall Cymraeg llafar	C18 Yn siarad Cymraeg	C18 Yn darllen Cymraeg	C18 Yn ysgrifennu Cymraeg	C18 Yn dysgu Cymraeg
Gradd 2	30	15	14	11	9
Gradd 3	26	17	16	14	13
Gradd 4	28	20	19	12	11
Gradd 5	33	24	23	17	18
Gradd 6	43	26	34	20	30
Gradd 7	34	32	34	28	18
Gradd 8	33	24	27	21	19
Gradd 9	17	15	16	13	20
Gradd 10	12	8	10	6	11

Gradd 11	8	6	7	4	3
Gradd 12	5	4	4	3	6
Dros 12	3	1	1	1	1
Cyfanswm 2017/18	<b>272</b>	<b>192</b>	<b>205</b>	<b>150</b>	<b>159</b>
Cyfanswm 2016/17	<b>233</b>	<b>166</b>	<b>205</b>	<b>145</b>	<b>153</b>

Mae'r data a grynhoir yn y tabl uchod yn awgrymu bod sgiliau Cymraeg wedi'u dosbarthu'n weddol gyson drwy'r lefelau amrywiol o weithwyr yn ôl graddau. Mae'r data hefyd yn dangos y cafwyd cynnydd yn nifer y sgiliau a gofnodwyd ers y flwyddyn flaenorol.

**Tabl B: Y ffigurau cyffredinol ar gyfer pob is-adran o staff sy'n cofnodi un neu fwy o sgiliau Cymraeg.**

	C18 Yn deall Cymraeg llafar	C18 Yn siarad Cymraeg	C18 Yn darllen Cymraeg	C18 Yn ysgrifennu Cymraeg	C18 Yn dysgu Cymraeg
Tlodi a'i Atal	17	12	13	9	17
Lleoedd	117	87	96	74	69
Addysg (nid ysgolion)	22	15	16	15	19
Gwasanaethau Cymdeithasol	43	37	37	28	28
Adnoddau	32	23	27	19	20
<b>Cyfanswm</b>	<b>231</b>	<b>174</b>	<b>189</b>	<b>145</b>	<b>153</b>

**Tabl C: Ffigurau cryno ar gyfer pob is-adran**

Uned Gwasanaeth	Cyfrif Pennau	% y staff sydd wedi cofnodi sgiliau	Nifer y staff sydd wedi cofnodi sgiliau
Cyfarwyddiaeth - Adnoddau	683	28.8%	197
Cyfarwyddiaeth - Pobl (Tlodi a'i Atal)	375	30.4%	114
Cyfarwyddiaeth - Lleoedd	2758	33.4%	920
Addysg (nid ysgolion)	1047	32.8%	343
Gwasanaethau Cymdeithasol	1598	48.5%	775

<b>Cyfanswm</b>	<b>6461</b>	<b>36.40%</b>	2349
-----------------	-------------	---------------	------


Mae Tabl C yn dangos y bu cynnydd sylweddol yn nifer a chanran y staff sydd wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ers yr adroddiad diwethaf, gan awgrymu bod mentrau i annog staff i ddarparu manylion wedi cael peth effaith ar wella'r gyfradd gwblhau ar Oracle.

- **426** aelod o staff yn 2016/17 a **2,349** yn 2017/18
- Cofnododd **6.54%** eu sgiliau yn 2016/17 gan gynyddu i **36.4%** yn 2017/18.

### Swyddi Newydd a Gwag

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o nifer y swyddi newydd neu wag a hysbysebwyd gan yr awdurdod ac mae'n dangos lefelau'r sgiliau Cymraeg y mae eu hangen ar gyfer y rôl. Lefel 1 yw'r lefel fwyaf sylfaenol o ddealltwriaeth a Lefel 5 yw'r un fwyaf datblygedig.

Lefel y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol	Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn 2017/18
Lefel 1	475
Lefel 2	1
Lefel 5	3
Dim angen	163



### Hyfforddiant

Cofrestrodd y cyngor gyda "Learn Welsh Cymru" yn ystod y cyfnod adrodd fel y gall staff gael mynediad i'r cwrs ar-lein 10 awr <https://dysgucymraeg.cymru/cymraeg-gwaith/cwrs-ar-lein/>

Ni chynigiwyd cyrsiau corfforaethol yn Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd, ond roedd yr holl gyrsiau e-ddysgu gorfodol i staff yn y broses o gael eu cyfieithu ym mis Mawrth 2018 i sicrhau y gall staff eu cyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol. Adroddir am y cynnydd yn hyn o beth yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Cwblhaodd cyfanswm o 12 aelod o staff fodiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar-lein yn y cyfnod adrodd.

O fis Ebrill 2017 i fis Awst 2017, parhaodd yr awdurdod i ddarparu gwersi Cymraeg sylfaenol cymorthdaledig i staff. Mae'r tabl isod yn dangos manylion presenoldeb myfyrwyr.

Mae adborth staff yn awgrymu y gallai fod gwell cyfleoedd i ddysgu Cymraeg gan nad yw'n ddigon hygyrch nac yn ddigon hawdd ar hyn o bryd.

### **Cofnodion Presenoldeb Gwersi Cymraeg ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2017/2018**

Lefel	Dyddiadau cyrsiau	am / pm	Nifer o wersi	Staff ar y cwrs	Cyfanswm Presenoldeb Arfaethedig	Cyfanswm Presenoldeb Gwirioneddol	Canran presenoldeb
1	9/11/16 i 5/7/17	am	13	16	208	160	77%
1	9/11/16 i 5/7/17	pm	13	16	208	199	96%
1	5/01/16 i 3/8/17	yw	17	17	289	181	63%
				<b>49</b>	<b>705</b>	<b>540</b>	<b>77%</b>
2	5/11/16 i 3/8/17 3/8/17	pm	17	7	119	60	50%
<b>CYFANSWM</b>				<b>56</b>	<b>824</b>	<b>600</b>	<b>73%</b>

Roedd nifer o staff a gwblhaodd gyrsiau sylfaen yn dymuno parhau â'u hyfforddiant ar ôl haf 2017 ac roedd eraill yn dymuno dechrau dysgu'r iaith.

Cofrestrodd cyfanswm o 99 o staff ddiddordeb mewn dosbarthiadau Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd, ond nid oedd gan yr awdurdod y cyllid angenrheidiol ym mis Medi 2017 i ateb y galw.

O ganlyniad i drafodaethau â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, cafwyd cytundeb lle byddai'r ganolfan yn ariannu ac yn trefnu hyfforddiant dwys "Gwaith Cymru" i staff y cyngor. Rhoddwyd cytundeb partneriaeth ar waith ar ddechrau mis Ionawr 2018 gan ganiatáu i 36 aelod o staff ddechrau'r hyfforddiant dwys ar 16 Ebrill 2018 (i orffen ar 31 Mawrth 2019).

O fis Medi 2018, bydd gan staff (gan gynnwys y rhai sy'n dymuno symud ymlaen o'u cwrs Lefel 1) ac eraill nad ydynt am wneud y cwrs dwys gyfle i ddilyn cwrs sylfaen Lefel 1 a 2 (30 wythnos) a gomisiynir gan Gyngor Abertawe ac a ddarperir gan Brifysgol Abertawe.

Adroddir am gynnydd ar yr holl gyrsiau i staff yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

### **Cefnogaeth Staff**

Nid oedd y grwpiau amser cinio wythnosol i gefnogi dysgwyr a siaradwyr Cymraeg yn nau brif leoliad y cyngor a ddechreuodd yn y flwyddyn flaenorol wedi gallu parhau oherwydd gostyngiad yn nifer y staff i gydlynu'r grwpiau a theimlad cyffredinol nad oedd gweithwyr yn gallu rhoi o'u hamser yn rheolaidd yn ystod eu hamser cinio. Mae trafodaeth yn parhau ynghylch y ffordd orau ymlaen ac mae rhai grwpiau llai o weithwyr yn cwrdd yn anffurfiol.

### **Cortynnau Gwddf/Bathodynau**

Mae ein Hysbysiad Cydymffurfio yn mynnu y dylid rhoi cortynnau gwddf a bathodynau 'laith Gwaith' i staff derbynfa sy'n siarad Cymraeg er mwyn iddynt fod yn amlwg i aelodau o'r cyhoedd. Gall yr holl staff sy'n siarad Cymraeg gael cortyn gwddf "laith Gwaith" ac mae dysgwyr Cymraeg yn gallu gwisgo cortynnau gwddf "Dysgwr Cymraeg". O ganlyniad, mae aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg wedi gallu adnabod siaradwyr eraill a dechrau sgysiau yn Gymraeg. Mewn rhai achosion, bu pobl yn gweithio gyda'i gilydd am flynyddoedd heb sylweddoli hyn. O ganlyniad felly, mae mwy o gyfle am sgysiau anffurfiol (ac ehangach) yn Gymraeg, gan felly normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

### **Cyfathrebu â Staff**

Er bod negeseuon canolog yn cael eu hanfon i grwpiau o staff yn Saesneg (fel y caniateir gan y safonau), mae siaradwyr Cymraeg yn cysylltu â'i gilydd yn gynyddol drwy e-bost neu dros y ffôn yn Gymraeg.

Gyda phwyslais cynyddol ar weithio "hyblyg", mae ardal hyblyg newydd yn cael ei datblygu. Bydd un rhan ohoni wedi'i neilltuo ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg fel y gallant eistedd gyda'i gilydd os ydynt am wneud hynny a siarad Cymraeg â'i gilydd.

Cynhaliwyd digwyddiad galw heibio mawr i staff o'r enw "Byddwch y Gorau y Gallwch Fod" yn ystod y cyfnod adrodd, ac roedd Menter Iaith Abertawe, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (o'i chanolfan leol yn Academi Hywel Teifi ym Mhrifysgol Abertawe) a Swyddog y Gymraeg y cyngor ymysg stondinau'r arddangoswyr. Bu cwis papur syml am enwau lleoedd yng Nghymru'n boblogaidd gan ddenu pobl i'r stondinau, a mynegodd sawl aelod o staff ddiddordeb mewn dysgu Cymraeg neu gael mwy o wybodaeth am y cyfleoedd sydd ar gael yn lleol i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg.

### **Cyfarfodydd**

Yn ystod cyfarfodydd mewnol, yn enwedig y rheiny o natur dra ffurfiol, mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd wedi'i drefnu ymlaen llaw ar gael i'r bobl sy'n bresennol sydd am gyfrannu yn Gymraeg.

Wrth gwrdd ag asiantaethau allanol sydd am drafod â'r awdurdod drwy gyfrwng y Gymraeg, lle bynnag y bo modd (a chyda rhybudd ymlaen llaw), byddai siaradwyr Cymraeg cymwys yn mynd i'r cyfarfod ar ran yr awdurdod er mwyn gallu cynnal cymaint o'r cyfarfod â phosib yn Gymraeg.

### **Gwelededd**

Mae'r holl fentrau uchod wedi cynyddu a chryfhau pa mor amlwg yw'r iaith ar draws y mwyafrif o weithrediadau meysydd, gan annog ei defnydd yn anffurfiol ac mewn cyd-destun gwaith.

### 3ch Safonau Hyrwyddol

Er bod strategaeth amlinellol 5 mlynedd i hyrwyddo'r Gymraeg wedi bod ar waith ers mis Medi 2016, araf y bu'r cynnydd o ran ei datblygu.

Cyfarfu Nia Davies o Gwmni Nico, ar ran Comisiynydd y Gymraeg, â Swyddog y Gymraeg a'i arweinydd tîm ym mis Rhagfyr 2017 i drafod y safonau hyrwyddol. Comisiynwyd "Nico" gan y comisiynydd i lunio pecyn cymorth i gynorthwyo cydymffurfio â'r safonau hyrwyddol. Bu'r drafodaeth yn ddefnyddiol iawn wrth egluro pa gamau gweithredu y mae angen i ni eu cymryd wrth ddatblygu'r cynllun, a bydd y pecyn cymorth/ddogfen gyngor yn fuddiol wrth gynorthwyo'r awdurdod i symud ymlaen.

Ni lwyddodd Menter Iaith Abertawe i gael arian grant gan yr awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd felly bydd cynigion i weithio gyda'n gilydd i hyrwyddo'r iaith yn gyfyngedig.

Mae'r awdurdod wedi ymrwmo i ddigwyddiad tridiau blynyddol o'r enw "CROESO" i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar y penwythnos agosaf at 1 Mawrth. Yn anffodus, oherwydd rhybudd o dywydd difrifol, canslwyd nifer o agweddau awyr agored digwyddiad eleni neu fe'u cynhaliwyd dan do. Fodd bynnag, cynhaliwyd gorymdaith yng nghanol y ddinas sef "Pâred Dewi", a bu tua 200 o unigolion a 7 cerbyd sioe'n cymryd rhan ynddi. Mae Menter Iaith Abertawe'n cynghori ar drefniadau a chynnwys y digwyddiad ac anogir yr holl gymunedau i gymryd rhan yn yr ŵyl sy'n amlygu'r Gymraeg fel conglfaen unigryw sy'n uno pobl Abertawe.

I nodi Dydd Gŵyl Dewi, trefnodd yr awdurdod arddangosfa Gymraeg yng Nghanolfan Ddinesig Abertawe a gynhaliwyd am fis dros gyfnod 1 Mawrth i hyrwyddo'r iaith ac amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael yn Ninas a Sir Abertawe i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg. Roedd yr arddangosion yn cynnwys manylion ynghylch sut i ddysgu Cymraeg a ble y gellir cael addysg Gymraeg gan gynnwys grwpiau cyn ysgol a meithrinfeydd, grwpiau gweithgarwch cymdeithasol a'r cyfleoedd sydd ar gael drwy Fenter Iaith Abertawe yn ei Chanolfan Gymraeg a'r tu hwnt.

### 3d. Addysg Gymraeg

Er bod datblygu'r Gymraeg yn yr ardal a thu hwnt yn y dyfodol yn gysylltiedig mewn ffordd sylfaenol ag Addysg Gymraeg, ymdrinnir â'r agwedd hon yn benodol yng Nghynllun Addysg Gymraeg y cyngor.

Mae 11 ysgol gynradd Gymraeg bellach sy'n bwydo dwy ysgol uwchradd – Ysgol Gyfun Gŵyr ac Ysgol Gyfun Bryn Tawe.

Caiff nifer y disgyblion sy'n mynychu sefydliadau addysg Gymraeg yn y tri grŵp oedran, a chanrannau cyffredinol pob grŵp oedran y mae'r ffigurau hyn yn eu cynrychioli, eu hamlinellu yn y tablau a'r graffiau isod. Maent yn dangos bod nifer y myfyrwyr sy'n derbyn addysg Gymraeg a'r ganran gyffredinol wedi cynyddu yn y flwyddyn ddiwethaf.

## 2017-2018

Cofrestrau ysgolion	Cyfanswm ffrydiau Cymraeg a Saesneg	Nifer y disgyblion mewn darpariaeth Gymraeg	Canran y disgyblion mewn ffrydiau Cymraeg
Cynradd	22383	3271	14.6%
BI 7-11	12210	1428	11.7%


B12-B131	1592	443	27.8%
<b>Cyfanswm</b>	<b>36185</b>	<b>5142<sup>2</sup></b>	<b>14.2%</b>


<sup>1a2</sup>Nid yw'r ffigurau'n cynnwys presenoldeb mewn coleg chweched dosbarth, e.e. Coleg Gŵyr Abertawe

## 2016-2017

Cofrestrau ysgolion	Cyfanswm ffrydiau Cymraeg a Saesneg	Nifer y disgyblion mewn darpariaeth Gymraeg	Canran y disgyblion mewn ffrydiau Cymraeg
Cynradd	22266	3263	14.7%
Bl. 7-11	11928	1338	11.2%
B12/13 <sup>3</sup>	1430	307	21.5%
<b>Cyfanswm</b>	<b>35624</b>	<b>4908<sup>4</sup></b>	<b>13.8%</b>

<sup>3a4</sup>Nid yw'r ffigurau'n cynnwys presenoldeb mewn coleg chweched dosbarth, e.e. Coleg Gŵyr Abertawe





Mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, enillodd dros 86% o ddisgyblion raddau A\*-C, ac mae'r niferoedd sy'n dewis y pwnc wedi cynyddu'n gyson yn y chwe blynedd hyd at 2017.

Mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith (cwrw llawn), enillodd dros 86% raddau A\*-C, ac mae'r niferoedd sy'n dewis y pwnc wedi cynyddu yn y chwe blynedd ers 2012 o 239 o ymgeiswyr (9.2%) i 678 o ymgeiswyr (28.2%) yn 2017. Mae'r cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr yn rhannol oherwydd y bwriad i ddileu opsiwn y cwrw byr yn y pwnc hwn, a bydd yr holl ymgeiswyr yn dilyn y cwrw llawn o 2019.

Mae perfformiad yn y Gymraeg hefyd yn gryf yng nghyfnodau allweddol 2 a 3.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae canran y disgyblion ym Mlwyddyn 6 sy'n cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg Iaith Gyntaf wedi gwella o 91.2% yn 2013 i 95.3% yn 2017. Y gwelliant cyfatebol ar gyfer Cymraeg Ail Iaith dros yr un cyfnod oedd o 67.5% i 77.0%.

Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae canran y disgyblion ym Mlwyddyn 9 sy'n cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn Cymraeg Iaith Gyntaf wedi gwella o 87.6% yn 2013 i 93.8% yn 2017. Y gwelliant cyfatebol ar gyfer Cymraeg Ail Iaith dros yr un cyfnod oedd o 73.1% i 81.8%.

Yn gyffredinol mae'r Gymraeg yn perfformio'n dda fel pwnc yn Abertawe.

### Demograffeg y Gymraeg yn Abertawe

Cyfrifiad 2011 yw'r ffynhonnell wybodaeth allweddol o hyd ar gyfer sgiliau Cymraeg yn ddaearyddol. Mae'r tablau yn Atodiad c) yn amlinellu canran y sgiliau Cymraeg fesul ward etholiadol ac oed.



### **3dd Safonau Cadw Cofnodion**

Ffocws y safonau hyn yw dangos bod yr awdurdod yn cydymffurfio â'r safonau wrth ymdrin â data, ei gadw ac adrodd amdano. Mae hyn yn cynnwys llunio'r adroddiad blynyddol hwn.

### Atodiad a) - Casgliadau'r gwaith monitro mewn perthynas â'r sefydliad yn 2016-17

Mae'r adroddiad yn seiliedig yn rhannol ar gasgliadau gwaith monitro'r Comisiynydd yn 2016-17. Cynhaliwyd cyfres o ymarferion ymchwil siopwr dirgel a bwrdd gwaith er mwyn profi sut caiff y safonau eu rhoi ar waith yn ymarferol. Mae gwybodaeth am y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith hwn ar gael mewn atodiad i'r Adroddiad Sicrwydd.

Mae'r tabl yn Atodiad 1 yn dangos a) perfformiad cyffredinol sefydliadau yn yr ymarferion hyn, ac mae'n

b) cyflwyno perfformiad Cyngor Abertawe i'w gymharu.

	<b>Perfformiad Cyffredinol</b>	<b>Perfformiad y sefydliad</b>
Ffôn	<p>Rhodddwyd cyfarchiad Cymraeg yn ystod 90% o'r galwadau i brif linell ffôn sefydliadau cyhoeddus</p> <p>Bu angen gofyn am wasanaeth Cymraeg yn ystod 12% o'r galwadau i sefydliadau cyhoeddus</p> <p>Gydag 84.5% o'r galwadau, ymdriniwyd â'r alwad gyfan yn Gymraeg, gyda'r derbynnydd ac o bosib swyddog arall yn ymateb (sefydliadau y mae Safon 10 yn berthnasol iddynt)</p> <p>Gyda 57% o'r galwadau, cynhaliodd y derbynnydd y sgwrs yn Gymraeg i ddeall natur yr ymholiad gan drosglwyddo'r alwad wedyn (sefydliadau y mae Safon 11 (a) yn berthnasol iddynt)</p> <p>Nid oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael yn ystod 5% o'r galwadau ffôn a atebwyd gan sefydliadau.</p>	<p>Atebwyd 2 o 3 galwad â chyfarchiad Cymraeg</p> <p>Ymdriniwyd â 2 o 3 galwad yn gyfan gwbl yn Gymraeg, gyda'r derbynnydd ac o bosib swyddog arall yn darparu ymateb</p> <p>Nid oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael yn ystod 1 o 3 galwad ffôn a atebwyd gan y sefydliad</p>
Derbynnydd	<p>Roedd aelod o staff ar gael i ddarparu gwasanaeth Cymraeg mewn 67% o dderbynnydd mewn cynghorau sir, awdurdodau parciau cenedlaethol ac yn Llywodraeth Cymru.</p> <p>Roedd 54% o dderbynnydd cynghorau sir yn arddangos arwydd yn croesawu'r defnydd o'r Gymraeg</p> <p>Roedd staff mewn 75% o dderbynnydd lle'r oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael yn gwisgo bathodyn yn croesawu'r defnydd o'r Gymraeg</p>	<p>Derbyniwyd gwasanaeth Cymraeg mewn 1 o 2 o dderbynnydd y sefydliad yr ymwelwyd â nhw</p> <p>Arddangoswyd arwydd yn croesawu'r defnydd o'r Gymraeg mewn 1 o 2 o dderbynnydd y sefydliad yr ymwelwyd â nhw</p> <p>Roedd staff yn gwisgo bathodyn yn croesawu'r defnydd o'r Gymraeg mewn 1 o 2 o dderbynnydd y sefydliad yr ymwelwyd â nhw lle'r oedd gwasanaeth Cymraeg ar gael</p>
Cyfrifonau Cymdeithasol	<p>Roedd 23% o gyfrifon Twitter sefydliadau cyhoeddus a 29% o'u cyfrifon Facebook yn darparu gwasanaeth cyfatebol yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>	<p>Gwelwyd bod y sefydliad yn darparu gwasanaeth cyfatebol yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer 42 o'r 46 o negeseuon Twitter a welwyd, ac 1 o'r 20 o negeseuon Facebook a welwyd.</p>

Gohebiaeth	<p><b>E-byst</b> Derbyniwyd ymateb i 74% o e-byst Cymraeg a 79% o e-byst Saesneg Roedd 7% o'r ymatebion i e-byst Cymraeg yn Saesneg</p> <p><b>Llythyrau</b> Derbyniwyd ymateb i 61% o lythyrau Cymraeg a 66% o lythyrau Saesneg. Roedd 4% o'r ymatebion i ohebiaeth Gymraeg yn Saesneg</p> <p><b>Facebook</b> Derbyniwyd ymateb i 74% o negeseuon Cymraeg Facebook, a 74% o negeseuon Saesneg Facebook Roedd 4% o'r ymatebion i ymholiadau Cymraeg Facebook yn Saesneg</p>	<p><b>E-byst</b> Derbyniwyd ymateb i 2 o 2 e-bost Cymraeg a 2 o 2 e-bost Saesneg</p> <p><b>Llythyrau</b> Derbyniwyd ymateb i 2 o 2 lythyr Cymraeg ac 1 o 2 lythyr Saesneg</p> <p><b>Facebook</b> Derbyniwyd ymateb i 2 o 2 neges Facebook yn Gymraeg ac 1 o 2 neges Facebook yn Saesneg</p>
Gwefan	<p>O'r tudalennau a welwyd, roedd 75% ar gael yn Gymraeg ac roedd y ddwy iaith yn cyfateb i'w gilydd; roedd 18% arall ar gael yn Gymraeg ond nid oedd y fersiwn yn cyfateb i'r fersiwn Saesneg, neu roedd gwallau ar y dudalen.</p> <p>Nid oedd 7% o'r tudalennau ar gael yn Gymraeg.</p> <p>O ran 53% o'r sefydliadau, roedd yr holl we-dudalennau ar gael yn Gymraeg, ac o ran 78% o'r sefydliadau, roedd dros tri chwarter o'u gwedudalennau ar gael yn Gymraeg.</p>	<p>Roedd 43 o'r 45 o dudalennau a welwyd ar gael yn Gymraeg</p> <p>Nid oedd 10 o'r 43 tudalen yn cyfateb neu roeddent yn cynnwys gwallau</p> <p>Nid oedd 2 o'r 45 o dudalennau ar gael yn Gymraeg</p>
Dogfennau	<p>Roedd saith o'r 8 sefydliad y mae Safon 40 yn berthnasol iddynt (rhaid i unrhyw ddogfennau at ddefnydd y cyhoedd yr ydych yn eu llunio gael eu llunio yn Gymraeg) yn cydymffurfio â'r safon Dyma nifer y sefydliadau y mae safonau eraill yn berthnasol iddynt a oedd yn cydymffurfio:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ 41 (papurau byrddau rheoli) – 6 o 16 sefydliad</li> <li>○ 43 (llyfrynau, taflenni, pamffledi, cardiau) – 11 o 18 sefydliad</li> <li>○ 44 (polisiâu, strategaethau, adroddiadau, cynlluniau, codau ymarfer a dogfennau corfforaethol eraill) - 6 o 15 sefydliad</li> <li>○ 46 (datganiadau i'r wasg) – 14 o 17 sefydliad</li> </ul>	<p>Gwelwyd tair dogfen a oedd yn ymwneud â phob un o'r safonau sy'n berthnasol i'r sefydliad. Canfuom y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ bod y sefydliad yn cydymffurfio â safon 41;</li> <li>○ bod y sefydliad yn cydymffurfio â safon 43;</li> <li>○ nid oedd y sefydliad yn cydymffurfio â safon 44;</li> <li>○ bod y sefydliad yn cydymffurfio â safon 46.</li> </ul>

Materion atodol	<p>Roedd 725 o'r sefydliadau wedi cyhoeddi dogfen sy'n nodi pa safonau y mae'n rhai iddynt gydymffurfio â hwy;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● roedd 55% o'r sefydliadau wedi cyhoeddi dogfen sy'n nodi sut byddant yn cydymffurfio â'r safonau;</li> <li>● roedd 28% o'r sefydliadau wedi cyhoeddi dogfen sy'n nodi eu trefniadau monitro;</li> <li>● roedd 20% o'r sefydliadau wedi cyhoeddi dogfen sy'n nodi eu gweithdrefn gwynion;</li> </ul>	<p>Wrth wirio gwefan y sefydliad, canfuom:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● fod y sefydliad wedi cyhoeddi dogfen sy'n nodi pa safonau y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â hwy;</li> <li>● nad oedd y sefydliad wedi cyhoeddi dogfen sy'n nodi sut bydd yn cydymffurfio â'r safonau;</li> <li>● nad oedd y sefydliad wedi cyhoeddi dogfen sy'n nodi ei drefniadau monitro;</li> <li>● nad oedd y sefydliad wedi cyhoeddi dogfen sy'n nodi ei weithdrefn gwynion.</li> </ul>
Swyddi	<p>Roedd y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer 15% o swyddi</p> <p>Roedd y Gymraeg yn sgil dymunol ar gyfer 52% o swyddi</p> <p>Nodwyd bod angen dysgu Cymraeg mewn 0.2% o swyddi</p> <p>Nodwyd nad oedd angen sgiliau Cymraeg mewn 27% o swyddi</p> <p>Rhodddwyd disgrifiad arall ar gyfer 13% o'r swyddi</p>	<p>Roedd y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer 0% o swyddi (0 o 98) a hysbysebwyd gan y sefydliad</p> <p>Roedd y Gymraeg yn sgil dymunol ar gyfer 26% o'r swyddi (25 o 98) a hysbysebwyd gan y sefydliad</p> <p>Nodwyd bod angen dysgu Cymraeg mewn 0% o'r swyddi (0 o 98) a hysbysebwyd gan y sefydliad</p> <p>Nodwyd nad oedd angen sgiliau Cymraeg mewn 16% o'r swyddi (16 o 98) a hysbysebwyd gan y sefydliad</p> <p>Rhodddwyd disgrifiad arall ar gyfer 58% o'r swyddi (57 o 98) a hysbysebwyd gan y sefydliad</p>
Strategaethau Hyrwyddo	<p>Roedd 15 o'r 21 o sefydliadau y mae dyletswydd arnynt i gydymffurfio wedi cyhoeddi strategaeth hyrwyddo</p> <p>Roedd 9 o'r 15 strategaeth wedi pennu targed sy'n ymwneud â nifer y siaradwyr Cymraeg</p> <p>Roedd 14 o'r 15 strategaeth yn cynnwys amcanion, targedau neu gynlluniau gweithredu strategol a oedd yn amlinellu gweithgareddau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn helaethach, ond roedd eu manylder yn amrywio'n fawr.</p>	<p>Roedd y sefydliad wedi cyhoeddi strategaeth hyrwyddo</p> <p>Nid oedd y strategaeth yn pennu targed yn ymwneud â nifer y siaradwyr Cymraeg</p> <p>Nid oedd y strategaeth yn cynnwys amcanion, targedau na chynlluniau gweithredu strategol sy'n amlinellu dulliau hyrwyddo ac yn hwyluso defnydd ehangach o'r Gymraeg.</p> <p>Roedd y ddogfen yn fframwaith ar gyfer camau gweithredu strategol. Nid oedd ganddi waelodlin o ran demograffeg na darpariaeth bresennol. Y bwriad yw mapio a llunio gwaelodlin o weithgareddau a niferoedd y siaradwyr Cymraeg fesul ward cyn pennu mesurau datblygu o fis Ionawr 2017.</p>

**Atodiad b) – Cwynion ynghylch cydymffurfio â'r safonau**

Cyfeirnod	Cwyn	Dyddiad derbyn	Ymateb	Cam Gweithredu Diwethaf	Statws
CSG118	Diffyg gwersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg	15.09.16	Gofynnwyd am gynllun gweithredu drafft gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac fe'i darparwyd.	22.01.18:	<b>AR GAU</b>  Cymeradwyodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg gynllun gweithredu drafft yr awdurdod.  Rhoddwyd y cynllun ar waith ar 24 Ionawr 2018 ac fe'i dilynwyd.  Nid oes angen gweithredu ymhellach
CSG156	Talu dirwy barcio ar-lein yn Saesneg yn unig	26.10.16	Mae'r system ar gael yn ddwyieithog. Gall fod angen clirio cwcis er mwyn talu drwy safle allanol neu bydd y system yn casglu hen ddata ac yn dangos y Saesneg	18.04.18	Penderfynodd y Comisiynydd <b>beidio ag agor ymchwiliad</b>
CS168	Llythyr atgoffa am hawlen barcio i breswlydd wedi'i hanfon yn	07.02.17	Cododd y broblem oherwydd gwall trafod â llaw wrth i ddwy system gael eu	29.11.17	<b>AR GAU</b> Derbyniwyd adroddiad terfynol gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a

	Saesneg yn unig		cynnal yn gyfochrog.		<p>chytunwyd arno.</p> <p>Cymerwyd camau gweithredu dilynol i atal hyn rhag digwydd yn y dyfodol. Nid oes angen gweithredu ymhellach</p>
CSG201	Ateb Saesneg yn unig i e-bost Cymraeg ei iaith	30.03.17	<p>Derbyniwyd e-bost a nodwyd fel neges frys pan oedd y derbynnydd allan o'r swyddfa. Anfonwyd ymateb yn Saesneg yn unig gan y derbynnydd.</p>	08.09.17 06.10.17	<p><b>AR GAU</b></p> <p>Derbyniwyd adroddiad terfynol a hysbysiad o benderfyniad a chytunwyd arnynt.</p> <p>Rhaid i Gyngor Abertawe:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg;</li> <li>2. Dweud yn yr ohebiaeth ei fod yn croesawu gohebiaeth (gan gynnwys POB ymwadiad e-bost) yn Gymraeg etc.</li> </ol> <p>Atgoffwyd staff o'r gofyniadau ac y dylai'r ymwadiad gael ei gynnwys yn ddiodyn ym mhob e-bost.</p>

					Nid oes angen gweithredu ymhellach.
CSG311	Ymatebion Saesneg i gyfres o e-byst Cymraeg	15.01.18	Roedd yr achwynydd wedi cytuno nad oedd angen cyfieithiad Cymraeg ar gyfer cyfarfodydd â swyddog. Ystyriodd y swyddog ei bod hi felly'n dderbyniol i e-bostio'r achwynydd yn Saesneg	22.01.18	<b>AR AGOR</b> Cytunwyd â Tesni Glyn o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg mai swyddog o Gyngor Abertawe oedd yn gyfrifol.

**Atodiad c) – Demograffeg y Gymraeg yn Abertawe**  
Cyfrifiad 2011 – Canran Sgiliau Cymraeg yn ôl ward etholiadol


	Gallu siarad, darllen neu ysgrifennu	Gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu	Gallu siarad Cymraeg ond ddim yn gallu	Gallu deall Cymraeg llafar yn unig	Cyfuniad arall o sgiliau	Dim sgiliau
Llandeilo Ferwallt	5.9	0.9	1.4	5.8	2.7	83.2
Bôn-y-maen	6.1	0.6	2	4.7	2.1	84.5
Y Castell	5.3	0.7	1.3	3.2	2.4	87.2
Clydach	14.3	2	3.9	9.7	2.7	67.4
Y Cocyd	6.9	1.1	1.7	5.4	2.4	82.6
Cwmbwrla	4.8	0.6	1.1	4.6	2.4	86.4
Dynfant	5	0.8	1.6	4.5	2.6	85.5
Fairwood	7.4	1.1	1.5	5.2	3.2	81.6
Gorseinon	8.3	1.7	2.8	8	3.2	76
Gŵyr	6.8	0.8	2	5.6	2.4	82.4
Tre-gŵyr	9.5	1.2	2.3	6.7	3.5	76.7
Gogledd Cilâ	7.4	0.8	1.1	3.7	2.8	84.1
De Cilâ	4.6	1	1.1	5.5	3	84.7
Pontybrenin	12.1	1.8	3	9.2	3.7	70.2
Glandŵr	4.5	0.7	0.9	3.6	1.8	88.6
Llangyfelach	13	1.3	2.5	7.4	2.5	73.3
Llansamlet	9.9	1.5	2.4	5.6	2.8	77.8
Llwchwr Isaf	10.8	1.7	2.3	7.5	2.3	75.3
<sup>5</sup> Mawr	<b>29.3</b>	<b>4.4</b>	<b>4.5</b>	<b>11.1</b>	<b>2.8</b>	<b>47.9</b>
Mayals	8.7	1.2	2	4.5	3.5	80
Treforys	8.2	1.3	2.3	5.9	2.8	79.6
Mynydd-bach	7.1	0.9	1.6	5.2	2.6	82.5
Newton	7.2	1	1.8	4.2	2.5	83.3
Ystumllwynarth	7.3	1	1.9	5.5	2.6	81.7
Penclawdd	8.8	2	3.8	8.9	3.9	72.6
Penderi	5	0.8	1.4	3.6	1.7	87.4
Penllergaer	10.2	1.9	3.1	6.7	2.3	75.9
Pennard	6.7	1.6	1.8	3.9	2.9	83.1
Penyrheol	9.1	2	3.8	9	3.3	72.9
Pontarddulais	22.5	3.1	5.8	11.4	2.8	54.4
Sgeti	8.1	1	1.6	4.7	2.6	82
St. Thomas	4.8	0.5	1.3	3.6	1.8	88
<sup>6</sup> Townhill	<b>3.7</b>	<b>0.6</b>	<b>1.4</b>	<b>3.6</b>	<b>1.2</b>	<b>89.5</b>
Uplands	8.2	0.9	1.3	3.8	2.9	82.8
Llwchwr Uchaf	11.3	1.6	3.5	9.8	3.9	69.9
West Cross	5.6	0.9	1.5	4.6	2.7	84.7
<b>ABERTAW</b>	<b>8.1</b>	<b>1.2</b>	<b>2.0</b>	<b>5.5</b>	<b>2.6</b>	<b>80.7</b>

5 Y ganran uchaf o breswylwyr â sgiliau Cymraeg

6 Y ganran isaf o breswylwyr â sgiliau Cymraeg



**Cyfrifiad 2011 – Sgiliau Cymraeg yn ôl oedran – Abertawe gyfan**



*Dangosir y cyfartaledd ar gyfer poblogaeth gyfan Abertawe sy'n*

*3+ oed gan y llinell ddotiog.*

*Dangosir cyfartaledd poblogaeth gyfan Cymru sy'n 3+ oed gan y*

*llinell doredig.*